



Adroddiad Arolygu ar gyfer

7 Heol Clarence

Llandudno

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/04/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

7 Heol Clarence

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited.
Lleuedd cofrestredig	4
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	01 Tachwedd 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y cymorth y maent yn ei gael, ac maent yn cyd-dynnu â'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Rhoddir dewisiadau i'r bobl o ran y ffordd y maent am fyw eu bywydau a'r gweithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Mae'r gweithwyr gofal yn hwyluso cyfleoedd i'r bobl fod yn rhan o'r gymuned. Mae'r dogfennau gofal yn fanwl, yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth am ofal ac anghenion cymorth pob person. Mae'r gweithwyr gofal yn deall sut i gefnogi pob person yn y ffordd orau ac yn parchu dewisiadau'r bobl. Caiff asesiadau risg eu defnyddio i reoli risgiau hysbys i ddiogelwch y bobl.

Mae'r amgylchedd yn gyfforddus, yn lân ac yn ddiogel. Mae'n annog y bobl i fod mor annibynnol â phosibl ac i ddysgu sgiliau bywyd newydd. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd ers yr arolygiad blaenorol ac mae bellach yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn ymrwymedig i alluogi'r bobl i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae'r prosesau recriwtio yn ddiogel ac mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant priodol. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i amllder y sesiynau goruchwylio ers yr arolygiad blaenorol. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau effeithiol ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.

Llesiant

Caiff y bobl eu helpu i gynnal cydberthnasau cadarnhaol. Gwelsom fod y bobl yn gyfforddus yng nghwmni'r rheolwr a'r gweithwyr gofal. Gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt gydberthnasau gwaith da â'r rhai sy'n eu cefnogi a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn am bwy ydynt. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn modd caredig a pharchus, a bod y bobl yn ymateb yn gadarnhaol i hynny. Caiff y bobl eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'u teuluoedd, os ydynt yn dewis gwneud hynny. Caiff cyfleoedd eu hwyluso i'r bobl wneud ffrindiau yn y gymuned leol. Er enghraifft, gwelsom fod y bobl yn mynychu cynullïadau crefyddol, yn gwirfoddoli ac yn mynd i gampfa gymunedol.

Rhoddir dewisiadau sy'n sicrhau y caiff hawliau'r bobl eu hamddiffyn. Mae'r bobl yn dewis eu trefn ddyddiol ac yn penderfynu sut maent am dreulio eu diwrnod. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn y gymuned sydd o ddiddordeb iddynt. Lle y bo'n bosibl, anogir y bobl i ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ardal leol yn annibynnol, sy'n cynyddu hyder y bobl yn eu galluoedd eu hunain. Mae'r rheolwr yn mynd ati i sicrhau bod y bobl yn cael cymaint o ryddid â phosibl i wneud eu dewisiadau eu hunain. Pan fydd Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith er lles pennaf y bobl, mae'r rheolwr yn sicrhau mai'r rhai lleiaf cyfyngol posibl ydynt. Caiff gwasanaethau eirioli hefyd eu hwyluso er mwyn cefnogi'r bobl i wneud dewisiadau yn eu bywydau. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn derbyn pob person sy'n defnyddio'r gwasanaeth fel unigolyn unigryw ac y caiff gwahaniaethau eu parchu.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau y caiff lleisiau'r bobl eu clywed. Caiff y bobl eu cynnwys wrth lunio eu cynlluniau personol a chânt gyfleoedd parhaus i ddweud sut maent am gael eu cefnogi. Caiff y trafodaethau hyn eu cofnodi, a chaiff y bobl eu cefnogi i fynegi eu barn a'u safbwyntiau gan ddefnyddio'r dulliau cyfathrebu sy'n gweithio orau iddynt. Mae prosesau ffurfiol hefyd ar waith i fonitro boddhad y bobl â'r gwasanaeth a ddarperir.

Caiff anghenion llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu diwallu. Gwneir trefniadau i'r bobl ddefnyddio gwasanaeth cymorth seicolegol y darparwr pan fo angen, er mwyn helpu'r bobl gyda materion emosiynol a seicolegol anodd. Manteisir ar grwpiau cymorth cymunedol a chaiff credoau crefyddol y bobl eu parchu. Caiff iechyd corfforol y bobl ei gefnogi mewn ffyrdd amrywiol, er enghraifft drwy annog deiet a ffordd o fyw iach, sicrhau eu bod yn cael meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd, a threfnu apwyntiadau iechyd pan fo angen.

Gofal a Chymorth

Mae dymuniadau personol y bobl, eu dyheadau a'r canlyniadau y maent am eu cyflawni yn llywio eu gofal a'u cymorth. Caiff y cynlluniau personol eu llunio ar y cyd â'r bobl, ac maent yn cofnodi dewisiadau'r person o ran sut mae am gael ei gefnogi yn fanwl. Maent yn cynnwys arweiniad mewn perthynas â sut y gall y gweithwyr gofal ddiwallu anghenion pob person a'i alluogi i gyflawni ei ganlyniadau unigol. Mae hyn yn hwyluso cysondeb o ran y cymorth y mae'r bobl yn ei gael. Mae'r cynlluniau personol hefyd yn cofnodi'r hyn y gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain, a chaiff hyrwyddo annibyniaeth ei annog. Defnyddir asesiadau risg i alluogi'r bobl i fyw'r bywyd y maent yn ei ddewis, gyda mesurau ar waith i reoli risgiau hysbys. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau pan fydd anghenion y bobl yn newid. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gofal a'r cymorth a ddarperir yn unol â'r cynlluniau personol sydd ar waith. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael.

Mae trefniadau ar waith i amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin, eu niweidio a'u hesgeuluso. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn hyderus ynghylch y camau y dylent eu cymryd os bydd ganddynt unrhyw bryderon am lesiant y bobl. Mae'r rheolwr yn rhoi gwybod am faterion diogelu yn briodol i'r Awdurdod Lleol a rhoddir gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) hefyd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn gweithio'n agos gyda gweithwyr amlasiantaeth proffesiynol eraill er mwyn amddiffyn y bobl cymaint â phosibl rhag camdriniaeth a niwed posibl yn y gymuned ehangach.

Darperir cymorth er mwyn galluogi'r bobl i fyw'n iach. Caiff cyflyrau iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl, a sut y cânt eu rheoli, eu cofnodi yn eu dogfennau gofal. Mae'r siartiau meddyginiaeth yn dangos bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd, sy'n helpu i reoli eu cyflyrau. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos y cysylltir â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn modd amserol am gyngor pan fydd amgylchiadau'r bobl yn newid. Caiff y cyngor a roddir ei gofnodi a'i ddilyn er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth cywir. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud ymarfer corff rheolaidd a'u hannog i wneud dewisiadau bwyd iach. Caiff y risgiau i iechyd y bobl eu nodi a'u cofnodi. Mae mesurau ar waith i reoli'r risgiau, cymaint â phosibl, ochr yn ochr â galluogi'r bobl i wneud eu dewisiadau eu hunain o ran sut maent yn dymuno byw eu bywydau.

Yr Amgylchedd

Darperir cymorth mewn amgylchedd diogel a chartrefol sy'n annog annibyniaeth. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd pob ardal o'r cartref yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau priodol wedi cael eu cymryd a bod pob ardal o'r cartref yn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol. Mae'r cartref gofal yn cynnwys pedwar fflat hunangynhwysol ar wahân. Mae gan y bobl allweddi i'r brif fynedfa ac i'w drws ffrynt eu hunain. Mae pob fflat yn cynnwys ystafell fyw, cegin, ystafell wely ac ystafell gawod. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu fflat. Gwelsom y gall y bobl bersonoli eu fflat drwy ddewis eu décor a thrwy wneud y fflat yn gartrefol drwy ychwanegu ffotograffau wedi'u fframio a phrintiau celf. Gosodir cyfleusterau newydd yn y gegin a'r ystafell ymolchi pan fo angen. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau ar adeg sy'n tarfu cyn lleied â phosibl ar y bobl, er enghraifft pan fyddant i ffwrdd ar wyliau.

Mae gardd ar gael y tu ôl i'r cartref gofal, y gall pobl ei defnyddio i gymryd rhan mewn gweithgareddau garddio, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Gall y bobl eistedd yn yr awyr agored gan fod ardal batio hygyrch a seddi ar gael iddynt. Ceir ardal ysmegu o flaen y cartref gofal i'r rhai y mae angen y cyfleuster hwn arnynt.

Anogir y bobl i ofalu am eu hamgylchedd byw eu hunain, sy'n gwella eu hannibyniaeth. Gwelsom fod pob fflat yn daclus a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cadw eu gofod byw eu hunain yn lân. Caiff y bobl eu cymell i gwblhau eu tasgau cadw tŷ a rhoddir cymorth iddynt wneud hynny pan fo angen.

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch yn y cartref eu rheoli'n dda. Mae gwiriadau ar waith i sicrhau y caiff risgiau i'r bobl yn yr amgylchedd eu nodi, ac mae mesurau priodol ar waith i reoli'r risgiau hysbys. Mae'r cofnodion yn dangos bod systemau diogelwch tân yn bresennol i sicrhau bod y rhagofalon angenrheidiol ar waith os bydd tân. Cynhelir ymarferion gwagio'r adeilad; cofnodir eu canfyddiadau a gweithredir arnynt. Mae gan bob person gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith, sy'n cofnodi'r cymorth sydd ei angen arno i adael yr adeilad mewn argyfwng. Caiff dyfeisiau nwy a thrydan eu gwasanaethu, a chaiff ansawdd a thymheredd y dŵr ei fonitro fel sy'n ofynnol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth a ddarperir, y gallant ei defnyddio i benderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas iddynt. Caiff Datganiad o Ddiben y darparwr ei ddiweddarau'n flynyddol ac mae'n disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn a sut yr ymatebir i gwynion. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw faterion gyda'r gweithwyr gofal a'r rheolwr.

Mae prosesau ar waith i sicrhau y caiff gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau cyn i bobl ddod i weithio yn y gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod wedi cwblhau shifftiau cysgodi fel rhan o'u cyfnod sefydlu yn y gwasanaeth, a wnaeth eu paratoi'n dda ar gyfer eu rolau. Darperir yr hyfforddiant perthnasol sy'n gwella gwybodaeth a sgiliau'r gweithwyr gofal, a'u dealltwriaeth o anghenion y bobl a gefnogir. Anogir y gweithwyr gofal i gwblhau cymwysterau gofal cymdeithasol perthnasol hefyd. Mae'r lefelau staffio yn unol â'r Datganiad o Ddiben ac yn gyson â nifer yr oriau o gymorth y cytunwyd y dylai'r bobl eu cael.

Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd y gweithwyr gofal yn cael cyfarfodydd goruchwylio un i un fel sy'n ofynnol. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd a bod y gweithwyr gofal yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cefnogi ei gilydd ac y gallant bob amser siarad â'r tîm rheoli os bydd angen arweiniad arnynt. Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd sy'n cynnig cyfle i rannu gwybodaeth a thrafod fel grŵp. Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd yn agos.

Mae trefniadau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Gofynnir i'r bobl yn wythnosol am eu barn ynglŷn â'r hyn a weithiodd yn dda iddynt yn ystod yr wythnos, a'r hyn yr hoffent ei wneud yn wahanol yn yr wythnos i ddod. Caiff y drafodaeth hon ei chofnodi yn nogfennau gofal y bobl. Mae hyn yn dangos y gofynnir i'r bobl yn gyson a yw'r gwasanaeth y maent yn ei gael yn diwallu eu hanghenion ac mae'n cynnig cyfle i wirio a yw canlyniadau'r bobl yn cael eu cyflawni. Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd i wirio a yw'r gwasanaeth yn cael ei redeg yn ddidrafferth ac yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Cynhelir adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gofal ddwywaith y flwyddyn er mwyn mesur pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn perfformio a chwilio am gyfleoedd i'w ddatblygu ymhellach. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn trafod y gwasanaeth a ddarperir â'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae adroddiadau ar gael i ddangos canlyniad ei ymweliadau, sy'n cynnwys cynlluniau gweithredu lle y bo angen.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
44	Ni chaiff pob ardal o'r cartref ei chynnal a'i chadw'n dda.	Cyflawnwyd
36	Nid yw pob aelod o staff y gwasanaeth wedi cael sesiynau goruchwylio ffurfiol bob tri mis.	Cyflawnwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 06/06/2024